GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Tegwch a Chynhwysiant
Equity & Inclusion

# Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd ar gyfer

## Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2024-2028
## Llunio ein Diwylliant Cynhwysol

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | Ar gyfer newid gwasanaeth, rhowch deitl Dogfen Amlinellol y Prosiect neu'r Achos Busnes a'r Rhif Cyfeirnod | Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 |
| **2.** | Enw'r Bwrdd Clinigol / Y Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol a theitl yr aelod staff arweiniol, gan gynnwys manylion cyswllt | Tegwch a Chynhwysiant<br>Mitchell Jones – Mitchell.Jones@wales.nhs.uk |
| **3.** | Amcanion strategaeth / polisi / cynllun / gweithdrefn / gwasanaeth<br><br>Polisïau a Gweithdrefnau - Hafan (sharepoint.com) | • Fel corff cyhoeddus, mae BIP Caerdydd a'r Fro yn rhwym o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb (2010) i ddatblygu Amcanion Cydraddoldeb Strategol bob 4 blynedd.<br>• Nod y cynllun yw sicrhau bod BIPCAF yn darparu gofal eithriadol, hygyrch a chynhwysol i'w gleifion, a darparu amgylchedd cynhwysol i'r holl staff ar yr un pryd. |

| | | |
|---|---|---|
| **4.** | Tystiolaeth a gwybodaeth gefndirol i'w hystyried.<br>Er enghraifft<br>• data poblogaeth<br>• data staff a defnyddwyr gwasanaeth, fel sy'n berthnasol<br>• asesiad o anghenion<br>• canfyddiadau ymgysylltu a chyfranogi<br>• ymchwil<br>• canllawiau arfer da<br>• gwybodaeth am gyfranogwyr<br>• rhestr o randdeiliaid a sut mae rhanddeiliaid wedi ymgysylltu â'r camau datblygu<br>• sylwadau gan y rhai sy'n ymwneud â'r camau dylunio a datblygu<br><br>Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru<br><br>Asesiad o Anghenion Poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg<br>- Partneriaeth Iechyd a<br>Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a'r Fro (cvihsc.co.uk) | Mae poblogaeth gyfunol Caerdydd a Bro Morgannwg yn 494,249, gyda Chaerdydd yn gartref i 362,310 o unigolion a 131,939 o drigolion ym Mro Morgannwg (Cyfrifiad, 2021). O ystyried bod data'r cyfrifiad wedi'u gwahanu, bydd yr asesiad yn ystyried Caerdydd a Bro Morgannwg fel dwy ardal ar wahân.<br><br>**Rhyw**<br>• **Caerdydd**<br>- 51.2% Benyw<br>- 48.8% Gwryw<br><br>• **Bro Morgannwg**<br>- 51.8% Benyw<br>- 48.2% Gwryw<br><br>**Hunaniaeth o ran rhywedd**<br>• **Caerdydd**<br>- 92.9% Hunaniaeth rhywedd yr un fath ag yr oedd adeg geni<br>- 0.2% Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni, ond ni roddwyd hunaniaeth benodol |

| | | |
|---|---|---|
| | [BIPCAF - Cartref (sharepoint.com)](#) | - 0.1% Menyw Traws<br>- 0.1% Dyn Traws<br>- 0.1% Anneuaidd<br>- 0.1% Arall<br>- 6.4% Heb ateb<br><br>• **Bro Morgannwg**<br>- 94.5% Hunaniaeth rhywedd yr un fath ag yr oedd adeg geni<br>- 0.1% Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni, ond ni roddwyd hunaniaeth benodol<br>- 0.1% Menyw Traws<br>- 0.1% Dyn Traws<br>- 0.1% Anneuaidd<br>- 0.0% Arall<br>- 5.2% Heb ateb<br><br>**Cyfeiriadedd rhywiol:**<br>• **Caerdydd**<br>- 87.0% Heterorywiol / Syth<br>- 2.4% Hoyw neu Lesbiaidd<br>- 2.4% Deurywiol<br>- 0.2% Panrywiol<br>- 0.1% Arywiol<br>- 0.1% Cwiar<br>- 0.2% Arall<br>- 7.7% Heb ateb<br><br>• **Bro Morgannwg**<br>- 90.3% Heterorywiol / Syth<br>- 1.7% Hoyw neu Lesbiaidd<br>- 1.1% Deurywiol<br>- 0.1% Panrywiol<br>- 0.1% Arywiol<br>- 0.0% Cwiar<br>- 0.1% Arall |

| | | |
|---|---|---|
| | | - 6.6% Heb ateb |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Oedran**<br><br>• **Caerdydd**<br>- 24.4% 4 -19 oed<br>- 10.5% 20-24 oed<br>- 15.5% 25-34 oed<br>- 18.6% 35-49 oed<br>- 16.5% 50-64 oed<br>- 8.0% 65-74 oed<br>- 4.6% 75-84 oed<br>- 2.0% 85+ oed<br><br>• **Bro Morgannwg**<br>- 22.7% 4-19 oed<br>- 4.6% 20-24 oed<br>- 11.4% 25-34 oed<br>- 18.6% 35-49 oed<br>- 20.7% 50-64 oed<br>- 11.8% 65-74 oed<br>- 7.3% 75-84 oed<br>- 2.8% 85+ oed |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Hil / Ethnigrwydd**<br>• **Caerdydd**<br>- 9.7% Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig<br>- 3.8% Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd<br>- 4.0% Grwpiau Cymysg neu Amlethnig<br>- 79.2% Gwyn<br>- 3.3% Arall<br><br>• **Bro Morgannwg**<br>- 2.1% Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig<br>- 0.5% Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd<br>- 2.3% Grwpiau Cymysg neu Amlethnig<br>- 94.6% Gwyn<br>- 0.5% Arall<br><br>**Crefydd:** |

| | | |
|---|---|---|
| | | • **Caerdydd**<br>- 42.9% Dim crefydd<br>- 38.3% Cristion<br>- 0.4% Bwdhydd<br>- 1.5% Hindŵ<br>- 0.2% Iddew<br>- 9.3% Mwslim<br>- 0.4% Sikh<br>- 0.6% Arall<br>- 6.3% Heb ateb<br><br>• **Bro Morgannwg**<br>- 47.9% Dim crefydd<br>- 44.1% Cristion<br>- 0.3% Bwdhydd<br>- 0.3% Hindŵ<br>- 0.1% Iddew<br>- 0.9% Mwslim<br>- 0.1% Sikh<br>- 0.5% Arall<br>- 5.7% Heb ateb<br><br>**Anabledd**<br>• **Caerdydd**<br>- 8.2% Yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu i raddau helaeth<br>- 10.4% Yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu i raddau<br><br>- 7.0% Ddim yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ond yn meddu ar gyflwr iechyd corfforol/iechyd meddwl hirdymor<br>- 74.4% Ddim yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, dim cyflwr iechyd corfforol/iechyd meddwl hirdymor |

| | | |
|---|---|---|
| | | • **Bro Morgannwg**<br>- 8.9% Yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu i raddau helaeth<br>- 11.0% Yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu i raddau |

- 7.5% Ddim yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ond yn meddu ar gyflwr iechyd corfforol/iechyd meddwl hirdymor
- 72.6% Ddim yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, dim cyflwr iechyd corfforol/iechyd meddwl hirdymor

**Statws Partneriaeth Gyfreithiol**

• **Caerdydd**

- 48.6% Heb briodi / heb gofrestru mewn partneriaeth sifil
- 36.8% Yn briod / mewn partneriaeth sifil
- 1.8% Wedi gwahanu, ond yn dal yn briod / mewn partneriaeth sifil yn gyfreithiol
- 7.85% Wedi ysgaru / partneriaeth sifil wedi'i diddymu
- 5.0% Gweddw neu bartner sifil sy'n fyw

• **Bro Morgannwg**

- 33.5% Heb briodi / heb gofrestru mewn partneriaeth sifil
- 47.4% Yn briod / mewn partneriaeth sifil
- 2.0% Wedi gwahanu, ond yn dal yn briod / mewn partneriaeth sifil yn gyfreithiol
- 10.1% Wedi ysgaru / partneriaeth sifil wedi'i diddymu
- 7.0% Gweddw neu bartner sifil sy'n fyw

Mae'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn cael effaith ar yr holl staff, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid. I ddechrau, wrth gynllunio ein hymgysylltiad, gwnaethom adolygu'r cwestiynau ymgysylltu yr oedd sefydliadau eraill wedi'u gofyn, gan gynnwys sefydliadau eraill y GIG. Nod y cam hwn oedd sicrhau bod proses ymgysylltu deg a thrylwyr yn cael ei darparu ar gyfer ein holl randdeiliaid. Buom yn cynnal trafodaethau gyda'n hadran strategaeth i wirio ein bod yn cadw at ganllawiau ymgysylltu ac i sicrhau aliniad â'r ymgysylltu a gynhaliwyd ar gyfer Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol. Trefnwyd sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb ar gyfer staff ar draws sawl safle ysbyty, gan gynnwys Ysbyty Athrofaol Cymru, Llandochau, Dewi Sant ac Ysbyty Brenhinol Caerdydd fel rhan o'n hymgysylltiad. Yn ystod ein sesiynau Wyneb yn Wyneb, rhoesom gyflwyniad cynhwysfawr yn

| | | |
|---|---|---|
| | | amlinellu cefndir ein Hamcanion a Chynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol, gan fanylu ar yr ymdrechion a wnaed gan y Bwrdd Iechyd hyd yma i gyflawni'r amcanion hyn, ac esboniad ynghylch pam fod ein dull gweithredu ychydig yn wahanol y tro hwn. Ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, trefnwyd sesiynau galw heibio amrywiol mewn lleoliadau gan gynnwys Ysbyty Athrofaol Cymru, Ysbyty Brenhinol Caerdydd, Ysbyty'r Barri a Hyb Llesiant Maelfa, gan gynnig trafodaethau wyneb yn wyneb i sôn am ein hamcanion. Yn ogystal, gwnaethom |

| | | |
|---|---|---|
| | | hwyluso sesiynau ar-lein i staff, rhanddeiliaid, a rhwydweithiau staff, gan ddefnyddio fformat cyflwyniad ar Mentimeter i annog cyfraniad ac adborth eang. Yn ogystal, dosbarthwyd llythyr i randdeiliaid ar ran y Prif Weithredwr, Suzanne Rankin, a Chadeirydd BIP Caerdydd a'r Fro, Charles<br><br>Janczewski, a sefydlwyd ffurflen Microsoft ar-lein i roi platfform i bobl gyflwyno eu barn. Fel rhan o'r ffurflen Microsoft, rhoesom gyd-destun o ran nod yr ymgysylltu, gan bwysleisio ein hymrwymiad i gyflawni dyletswydd y sector cyhoeddus drwy ddatblygu amcanion cydraddoldeb strategol newydd bob pedair blynedd. Roedd y ffurflen ar gael yn Gymraeg ac aethpwyd â chopïau caled i sesiynau ymgysylltu. Roedd fformatau eraill ar gael ar gais. Yn ogystal, gwnaethom ymgorffori hysbysiad preifatrwydd ar y ffurflen i roi gwybod i gyfranogwyr yn agored sut y byddai eu data'n cael ei ddefnyddio yn unol â rheoliadau preifatrwydd. Er mwyn hyrwyddo ein hymgysylltiad, gwnaethom ddosbarthu gwybodaeth trwy sianeli cyfathrebu amrywiol, gan gynnwys Ask Suzanne, Sharepoint, platfformau Cyfryngau Cymdeithasol, yn ogystal â thrwy bosteri wedi'u gosod yn strategol ar draws safleoedd gwahanol BIPCAF. Roedd hefyd gennym bresenoldeb ar y safle trwy gydol y cyfnod ymgysylltu i wella gwelededd a hygyrchedd.<br><br>Drwy gydol y broses ymgysylltu, fe wnaethom archwilio sylwadau yn systematig gan ddefnyddio Microsoft Excel, gan eu categoreiddio mewn themâu penodol. Gwnaethom gadw cyfrif o sylwadau a safbwyntiau tebyg er mwyn deall themâu cyffredin a'n helpu i lunio ein hamcanion. Roedd y broses hon yn rhan ganolog wrth lunio ein hamcanion a chreu sail i ffrydiau gwaith allweddol. Yn ogystal, buom yn craffu ar yr adborth a gafwyd o'r ymgysylltiad Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol er mwyn sicrhau aliniad â'r mentrau sefydliadol parhaus. Dwy thema amlwg a oedd yn atseinio yn ein hymgysylltiad a Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol oedd 'Rhoi Pobl yn Gyntaf' a 'Darparu Ansawdd Rhagorol', gan ddylanwadu ar ein hamcanion newydd.<br><br>Fel rhan o'r Ffurflen Microsoft a gynigiwyd, rhoddwyd y dewis i gyfranogwyr ymateb i gwestiynau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a oedd yn wirfoddol. Gwnaethpwyd y penderfyniad hwn i sicrhau ein bod yn casglu mewnbwn gan bawb, gan gwmpasu unigolion â nodweddion gwarchodedig amrywiol. Allan o'r cyfanswm o 301 o ymatebion a dderbyniwyd,<br>dewisodd 209 o gyfranogwyr ymgysylltu â'r Cwestiynau Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Ymhlith y rhai a gymerodd ran yn yr holiadur, roedd 9.3% yn gysylltiedig â'r Rhwydwaith Amrywiaeth Staff. |

| | | |
|---|---|---|
| | | [Cyfrifiad - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)](https://www.ons.gov.uk) |
| **5.** | Pwy fydd yn cael eu heffeithio gan y strategaeth / y polisi / y cynllun / y weithdrefn / y gwasanaeth | Bydd y cynllun yn effeithio ar yr holl staff, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid. |

**6. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb / Sut bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar bobl?**

Mae cwestiynau yn yr adran hon yn ymwneud â'r effaith ar bobl yn seiliedig ar eu 'nodweddion gwarchodedig'. Mae aliniad penodol â 7 nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'i gynnwys yn erbyn yr adrannau perthnasol.

| **Sut bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:-** | **Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl** | **Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru** | **Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Y Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol.**<br>Cyfeiriwch at ble mae'r mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn y ddogfen, fel sy'n briodol |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6.1 Oedran**<br>At y rhan fwyaf o ddibenion, y prif gategorïau yw:<br>• o dan 18 oed;<br>• rhwng 18 a 65 oed; a<br>• dros 65 oed | Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol (SEO) yn cefnogi ein Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a bydd wedi ystyried pobl o bob nodwedd warchodedig. Felly, bydd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl o bob oed.<br><br>**Amcan 1:**<br>Mae meithrin diwylliant cynhwysol drwy ymgyrchoedd addysg ac ymwybyddiaeth yn hybu parch at unigolion o bob oed, gan sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei werthfawrogi a'i barchu yn y gweithle ac mewn | I rannu ein hymgysylltiad ar wahanol blatfformau cyfryngau cymdeithasol, fel Instagram, i dargedu cynulleidfa ehangach. | Gwelsom fod mwyafrif yr ymatebwyr yn perthyn i'r categori 51-60 oed a theimlwyd bod angen i ni weithredu i ymgysylltu ag ystod oedran ehangach. Buom yn trafod y mater gyda'r<br>Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu a oedd yn awgrymu defnyddio gwahanol blatfformau cyfryngau cymdeithasol ac, wedi hynny, hysbysebwyd ein hymgysylltiad trwy gyfrif Instagram y Bwrdd Iechyd. |

| **Sut bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:-** | **Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl** | **Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru** | **Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Y Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol.**<br>Cyfeiriwch at ble mae'r mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn y ddogfen, fel sy'n briodol |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| | lleoliadau gofal iechyd, ni waeth beth yw eu hoedran.<br><br>**Amcan 2**<br>Mae blaenoriaethu mecanweithiau adborth yn sicrhau bod lleisiau unigolion o bob oedran yn cael eu hystyried. Mae'r dull hwn yn helpu i nodi anghenion a phryderon penodol sy'n ymwneud ag oedran, gan sicrhau bod sianeli cyfathrebu'n cael eu teilwra i gyrraedd ac ymgysylltu ag unigolion ar wahanol gyfnodau bywyd yn effeithiol.<br><br>**Amcan 3:**<br>Mae gwella hygyrchedd at wasanaethau iechyd o fudd i unigolion o bob oedran, gan gynnwys unigolion hŷn a allai fod ag anghenion symudedd neu synhwyraidd penodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd ffisegol a rhithwir ar gael yn hawdd.<br><br>**Amcan 4:**<br>Mae cynllunio gweithlu effeithiol yn ystyried amrywiaeth o ran | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | oedran, gan sicrhau bod proffil staff y sefydliad | | |

| **Sut bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:-** | **Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl** | **Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru** | **Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Y Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol.** Cyfeiriwch at ble mae'r mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn y ddogfen, fel sy'n briodol |
|---|---|---|---|
| | yn cynrychioli proffil demograffig amrywiol y gymuned. Gall hyn arwain at well dealltwriaeth o anghenion gofal iechyd unigolion ar wahanol gyfnodau bywyd. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6.2 Pobl ag anabledd fel y'i diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010**<br>Y rhai â namau corfforol, anabledd dysgu, colled neu nam ar y synhwyrau, cyflyrau iechyd meddwl, cyflyrau meddygol hirdymor fel diabetes | Efallai na fydd rhai pobl â nam ar y synhwyrau wedi gallu cael mynediad at y ffurflen na chymryd rhan yn ein cyflwyniad Mentimeter<br><br>Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol (SEO) yn cefnogi ein Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a bydd wedi ystyried pobl o bob nodwedd warchodedig. Felly, bydd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ag anabledd fel y'i diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>**Amcan 1**<br>Gall ymgyrchoedd addysg ac ymwybyddiaeth gyfrannu at amgylchedd mwy cynhwysol i unigolion ag anableddau, gan feithrin parch ac urddas. Mae hyn yn cynnwys hybu dealltwriaeth a pharch at alluoedd amrywiol a sicrhau bod unigolion ag | Sicrhau bod y ffurflen ar gael mewn fformatau gwahanol.<br><br>Targedu'r Rhwydwaith Anabledd.<br><br>Sicrhau fod rhywun ar gael yn ein sesiynau ar-lein i gymryd nodiadau ar gyfer unrhyw un na allai gyfrannu. | Roedd gan bobl yr opsiwn i wneud cais am y ffurflen mewn fformat gwahanol.<br><br>Hyrwyddwyd ymgysylltu trwy Rwydwaith Anabledd y Staff.<br><br>Roedd rhywun ar gael i gymryd nodiadau yn ystod y sesiynau ar-lein. |

| Sut bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:- | Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl | Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru | Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Y Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol.<br>Cyfeiriwch at ble mae'r mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn y ddogfen, fel sy'n briodol |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| | anabledd yn cael eu trin ag urddas<br>yn y gweithle ac mewn lleoliadau gofal iechyd.<br><br>**Amcan 2**<br>Mae blaenoriaethu mecanweithiau adborth yn sicrhau bod gan unigolion ag anableddau sianelau cyfathrebu hygyrch i leisio eu pryderon. Mae’r dull hwn yn helpu i nodi anghenion a phryderon penodol sy’n ymwneud ag anabledd, gan alluogi’r sefydliad i deilwra sianeli cyfathrebu i ymgysylltu’n effeithiol ag unigolion â galluoedd amrywiol.<br><br>Mae cydweithio a chydgynhyrchu strategaethau ymgysylltu yn sicrhau bod anghenion a safbwyntiau unigolion ag anableddau yn cael eu hystyried. Mae’r dull cynhwysol hwn yn cryfhau perchnogaeth ac ymgysylltiad cymunedol, gan feithrin amgylchedd sy’n ymateb i anghenion pawb, gan gynnwys y rhai ag anableddau.<br><br>**Amcan 3** | | |

| Sut bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:- | Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl | Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru | Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Y Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol.<br>Cyfeiriwch at ble mae'r mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn y ddogfen, fel sy'n briodol |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae gwella mynediad at wasanaethau iechyd a chyfleusterau o fudd i unigolion ag anableddau. Mae hyn yn cynnwys mynediad corfforol, dulliau cyfathrebu sy’n diwallu anghenion amrywiol, a’r defnydd o dechnoleg i wella mynediad, megis ymgynghoriadau rhithwir ac adnoddau ar-lein.<br><br>**Amcan 4**<br>Mae gwella arferion casglu data yn hollbwysig ar gyfer mynd i’r afael ag anghydraddoldebau iechyd sy’n gysylltiedig ag anabledd. Mae data cywir ar statws anabledd yn galluogi’r bwrdd iechyd i ddeall heriau a phrofiadau iechyd unigryw unigolion ag anableddau yn well, gan alluogi strategaethau wedi’u teilwra i fynd i’r afael â’u hanghenion penodol.<br><br>Mae cynllunio gweithlu ystyriol yn gofyn am ystyriaeth i ystod o alluoedd, gan ymdrechu i greu proffil staff sy’n adlewyrchu unigolion ag anableddau. Mae ymagwedd o’r fath | | |

| **Sut bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:-** | **Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl** | **Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru** | **Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Y Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol.** Cyfeiriwch at ble mae'r mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn y ddogfen, fel sy'n briodol |
|---|---|---|---|
| | yn meithrin amgylchedd lle mae gweithwyr yn fwy ymwybodol o anghenion amrywiol cleifion a defnyddwyr gwasanaeth â galluoedd amrywiol, gan hyrwyddo gwell cefnogaeth a dealltwriaeth. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6.3 Pobl o wahanol rywedd:** Ystyried dynion, menywod, pobl sy'n ailbennu eu rhywedd<br><br>**Noder** Mae ailbennu rhywedd yn golygu unrhyw un sy'n bwriadu, yn dechrau, yn profi neu sydd wedi cwblhau proses i newid ei rywedd gan fynd drwy unrhyw driniaethau meddygol neu heb wneud hynny. Cyfeirir atynt weithiau fel pobl Draws neu Drawsryweddol<br><br>Stonewall<br><br>Gender Identity Research & Education Society – Improving the Lives of Trans People (gires.org.uk) | **Effaith gadarnhaol:** Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol (SEO) yn cefnogi ein Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a bydd wedi ystyried pobl o bob nodwedd warchodedig. Felly, bydd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl o wahanol ryweddau.<br><br>**Amcan 1:** Y nod yw meithrin diwylliant cynhwysol trwy gynnal ymgyrchoedd addysg ac ymwybyddiaeth, gan greu amgylchedd lle mae unigolion o bob rhywedd yn teimlo eu bod yn cael eu parchu. Mae hyn yn cynnwys eirioli dros ddealltwriaeth a pharch at hunaniaethau rhywedd a mynegiant rhywedd amrywiol, gan sicrhau bod pawb yn cael eu trin ag urddas, waeth beth fo'u rhywedd. | Hyrwyddo ymgysylltiad mewn ystod ehangach o leoliadau, gan gynnwys trwy bosteri, i annog mwy o gyfranogiad gan gymunedau amrywiol. | Fel rhan o'r ymgysylltu, gwelsom fod diffyg amrywiaeth o ran ymatebwyr o wahanol ryweddau a hunaniaethau rhywedd.<br><br>Aethpwyd â phosteri i'r Queer Emporium i ymgysylltu â phobl o wahanol ryweddau a hunaniaethau rhywedd.<br><br>Hyrwyddwyd ymgysylltu hefyd trwy ein Rhwydwaith Staff LHDTC+. |

| **Sut bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:-** | **Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl** | **Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru** | **Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Y Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol.**<br>Cyfeiriwch at ble mae'r mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn y ddogfen, fel sy'n briodol |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Amcan 2:**<br>Trwy gydweithio a chydgynhyrchu strategaethau ymgysylltu, y nod yw sicrhau bod anghenion a safbwyntiau unigolion o wahanol ryweddau yn cael eu hystyried. Mae'r dull cynhwysol hwn yn cryfhau perchnogaeth ac ymgysylltiad cymunedol, gan greu amgylchedd sy'n ymateb i anghenion pobl o bob rhywedd.<br><br>**Amcan 3:**<br>Yr amcan yw gwella hygyrchedd gwasanaethau a chyfleusterau iechyd, er budd unigolion o bob rhywedd. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â mynediad corfforol, defnyddio dulliau cyfathrebu sy'n diwallu anghenion amrywiol, a defnyddio technoleg i wella mynediad. Y nod yw sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn hygyrch i bawb, waeth beth fo'u rhywedd.<br><br>**Amcan 4:** | | |

| Sut bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:- | Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl | Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru | Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Y Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol.<br>Cyfeiriwch at ble mae'r mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn y ddogfen, fel sy'n briodol |
|---|---|---|---|
| | Mae gwella arferion casglu data yn hanfodol ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd sy'n gysylltiedig â rhywedd. Mae data cywir yn ymwneud â rhywedd yn galluogi'r bwrdd iechyd i ddeall heriau a phrofiadau iechyd unigryw unigolion o wahanol ryweddau yn well, gan hwyluso datblygiad strategaethau wedi'u teilwra i fynd i'r afael â'u hanghenion penodol.<br><br>Mae cynllunio gweithlu cynhwysol yn golygu ystyried amrywiaeth o ran rhywedd, gan sicrhau bod proffil staff y sefydliad yn adlewyrchu unigolion o wahanol ryweddau. Mae'r strategaeth hon yn meithrin amgylchedd lle mae'r gweithlu'n dod yn fwy hyfedr wrth ddeall a mynd i'r afael ag anghenion gofal iechyd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, waeth beth fo'u rhywedd. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6.4 Pobl sy'n briod neu sydd â phartner sifil.** | Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol (SEO) yn cefnogi ein Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a bydd wedi ystyried pobl o bob nodwedd warchodedig. Felly, bydd yn | | |

| **Sut bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:-** | **Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl** | **Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru** | **Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Y Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol.** Cyfeiriwch at ble mae'r mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn y ddogfen, fel sy'n briodol |
|---|---|---|---|
| | cael effaith gadarnhaol ar bobl sy'n briod neu sydd â phartner sifil. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6.5 Menywod sy'n disgwyl babi, sydd ar absenoldeb o'r gwaith ar ôl cael babi, neu sy'n bwydo ar y fron.** Byddant yn cael eu gwarchod am 26 wythnos ar ôl cael babi, waeth a ydynt ar absenoldeb mamolaeth ai peidio. | Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol (SEO) yn cefnogi ein Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a bydd wedi ystyried pobl o bob nodwedd warchodedig. Felly, bydd yn cael effaith gadarnhaol ar fenywod sy'n disgwyl babi, sydd ar absenoldeb o'r gwaith ar ôl cael babi, neu sy'n bwydo ar y fron.<br><br>**Amcan 1:**<br>Gall ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a mentrau addysg fynd i'r afael â'r anghenion a'r heriau penodol a wynebir gan fenywod beichiog a'r rhai sydd ar eu cyfnod mamolaeth, gan sicrhau eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.<br><br>**Amcan 2:**<br>Dylai sianeli a strategaethau cyfathrebu gael eu cynllunio i fod yn hygyrch i fenywod ar gamau amrywiol o'u beichiogrwydd neu'r rhai sydd ar absenoldeb mamolaeth. | | |

| **Sut bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:-** | **Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl** | **Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru** | **Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Y Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol.** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Cyfeiriwch at ble mae'r mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn y ddogfen, fel sy'n briodol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dylai mecanweithiau adborth ystyried profiadau a phryderon unigryw'r menywod hyn, gan ganiatáu iddynt gymryd rhan weithredol yn y ddeialog ac wrth lunio'r dulliau cyfathrebu.<br><br>**Amcan 3:**<br>Dylai'r amcan i wella hygyrchedd gwasanaethau iechyd gynnwys bodloni anghenion menywod beichiog a menywod sy'n bwydo ar y fron. Mae hyn yn cynnwys sicrhau mynediad corfforol i gyfleusterau, mabwysiadu technoleg ar gyfer ymgynghoriadau rhithwir i leihau teithio, a darparu adnoddau sy'n cefnogi eu gofynion gofal iechyd penodol.<br><br>**Amcan 4:**<br>Mae cynllunio'r gweithlu a monitro cydraddoldeb yn hanfodol i fenywod sydd ar absenoldeb o'r gwaith oherwydd beichiogrwydd neu ar gyfnod mamolaeth. Mae sicrhau bod ganddynt amgylchedd cefnogol wrth ddychwelyd i'r gwaith | | |

| Sut bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:- | Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl | Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru | Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Y Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol. Cyfeiriwch at ble mae'r mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn y ddogfen, fel sy'n briodol |
|---|---|---|---|
| | a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau posibl mewn cynrychiolaeth neu driniaeth yn hanfodol i sicrhau tegwch i fenywod o dan yr amgylchiadau hyn. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6.6 Pobl o wahanol hil, cenedligrwydd, lliw, diwylliant neu darddiad ethnig gan gynnwys y rhai nad ydynt yn siarad Saesneg, sipsiwn/teithwyr, gweithwyr mudol**<br><br>The Runnymede Trust | Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol (SEO) yn cefnogi ein Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a bydd wedi ystyried pobl o bob nodwedd warchodedig. Felly, bydd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl o wahanol hil, cenedligrwydd, lliw, diwylliant neu darddiad ethnig gan gynnwys y rhai nad ydynt yn siarad Saesneg, y cymunedau teithwyr gweithwyr mudol.<br><br>**Amcan 1:**<br>Gall y mentrau hyn fynd i'r afael yn benodol â chefndiroedd diwylliannol ac ethnigrwydd unigryw unigolion, gan sicrhau bod ymgyrchoedd yn ddiwylliannol sensitif a bod cynnwys modiwlau addysg yn parchu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth.<br><br>**Amcan 2:** | Trafod sut y gallwn ymgysylltu'n well â chymunedau ethnig amrywiol gyda'r<br>Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu. | Fel rhan o'r ymgysylltu, gwnaethom sylwi bod ymatebwyr yn wyn yn bennaf ac nad ydynt yn gynrychioliadol o'r boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu.<br><br>Arddangoswyd posteri mewn ardaloedd â phoblogaethau o gefndiroedd amrywiaeth ethnig ehangach (yn unol â data'r cyfrifiad), gan gynnwys Pafiliwn Butetown a Phafiliwn Grangetown.<br><br>Hyrwyddwyd ymgysylltu trwy ein Rhwydwaith Staff Un Llais. |

| **Sut bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:-** | **Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl** | **Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru** | **Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Y Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol.**<br>Cyfeiriwch at ble mae'r mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn y ddogfen, fel sy'n briodol |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dylai sianeli a strategaethau cyfathrebu flaenoriaethu hygyrchedd iaith, gan gydnabod y rhai nad ydynt yn siarad Saesneg. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth mewn sawl iaith a defnyddio cyfieithwyr ar y pryd i hwyluso ymgysylltu ystyrlon. Dylai mecanweithiau adborth fod yn gynhwysol, gan ystyried anghenion ieithyddol amrywiol y gymuned, gan gynnwys rhai gweithwyr mudol a chymunedau teithwyr.<br><br>**Amcan 3:**<br>Mae gwella hygyrchedd gwasanaethau iechyd yn cynnwys sicrhau cynhwysiant diwylliannol. Mae hyn yn cynnwys cydnabod a darparu ar gyfer arferion diwylliannol amrywiol a dewisiadau unigolion o wahanol hil, cenedligrwydd a tharddiad ethnig. Dylai mynediad corfforol hefyd ystyried anghenion unigryw cymunedau teithwyr.<br><br>**Amcan 4:** | | |

| **Sut bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:-** | **Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl** | **Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru** | **Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Y Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol.** Cyfeiriwch at ble mae'r mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn y ddogfen, fel sy'n briodol |
|---|---|---|---|
| | Dylai arferion casglu data, fel rhan o'r amcan data, gynnwys gwybodaeth monitro cydraddoldeb sy'n ymwneud ag ethnigrwydd. Mae hyn yn sicrhau bod gan y bwrdd iechyd ddealltwriaeth gynhwysfawr o anghydraddoldebau iechyd ymhlith grwpiau demograffig amrywiol ac y gall deilwra strategaethau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6.7 Pobl â chrefydd neu gred neu heb grefydd na chred**.<br>Mae'r term 'crefydd' yn cynnwys cred grefyddol neu athronyddol | Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol (SEO) yn cefnogi ein Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a bydd wedi ystyried pobl o bob nodwedd warchodedig. Felly, bydd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl â chrefydd neu gred, neu heb grefydd na chred.<br><br>**Amcan 1:**<br>Gall yr amcan parch, sy'n canolbwyntio ar feithrin diwylliant cynhwysol, gynnwys ymgyrchoedd ymwybyddiaeth sy'n cydnabod ac yn parchu credoau crefyddol amrywiol. Dylai'r ymgyrchoedd hyn hyrwyddo amgylchedd lle mae unigolion o gefndiroedd crefyddol | | |

| **Sut bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:-** | **Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl** | **Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru** | **Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Y Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol.**<br>Cyfeiriwch at ble mae'r mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn y ddogfen, fel sy'n briodol |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| | neu anghrefyddol yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys.<br><br>**Amcan 2:**<br>Dylai sianelau cyfathrebu a strategaethau ymgysylltu hwyluso deialog barchus sy'n ystyried y credoau crefyddol amrywiol a'r safbwyntiau anghrefyddol o fewn y gymuned. Dylid cynllunio mecanweithiau adborth i fod yn gynhwysol, gan sicrhau bod unigolion â chredoau amrywiol, neu'r rhai heb unrhyw ymlyniad crefyddol, yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u deall.<br><br>**Amcan 3:**<br>Dylai gwella hygyrchedd gwasanaethau iechyd gynnwys ystyriaethau ar gyfer unigolion ag arferion crefyddol penodol neu'r rhai heb unrhyw gredoau crefyddol. Gall hyn gynnwys darparu mannau ar gyfer gweddïo neu fyfyrio a sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn gynhwysol ac yn parchu creodau amrywiol. | | |

| **Sut bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:-** | **Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl** | **Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru** | **Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Y Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol.** Cyfeiriwch at ble mae'r mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn y ddogfen, fel sy'n briodol |
|---|---|---|---|
| | **Amcan 4:** Dylai arferion casglu data, fel rhan o'r amcan data, gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â chredoau crefyddol, neu ddiffyg credoau. Mae hyn yn sicrhau bod gan y bwrdd iechyd fewnwelediad i anghydraddoldebau iechyd posibl neu amrywiadau ym mhrofiadau staff sy'n ymwneud â chredoau crefyddol neu safbwyntiau anghrefyddol. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6.8 Pobl sy'n cael eu denu at bobl eraill o'r:**<br>• rhyw arall (heterorywiol);<br>• yr un rhyw (lesbiaidd neu hoyw);<br>• y ddau ryw (deurywiol)<br><br>Stonewall | Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol (SEO) yn cefnogi ein Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a bydd wedi ystyried pobl o bob nodwedd warchodedig. Felly, bydd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sy'n cael eu denu at bobl eraill o'r rhyw arall, yr un rhyw neu'r ddau ryw.<br><br>**Amcan 1:**<br>Gall yr amcan parch, sy'n canolbwyntio ar feithrin diwylliant cynhwysol, gynnwys ymgyrchoedd ymwybyddiaeth sy'n hybu parch ac urddas i unigolion o bob cyfeiriadedd rhywiol. Dylai'r ymgyrchoedd hyn | Hyrwyddo ymgysylltiad mewn ystod ehangach o leoliadau, gan gynnwys trwy bosteri, i annog mwy o gyfranogiad gan gymunedau amrywiol. | Fel rhan o'r ymgysylltu, gwelsom fod diffyg amrywiaeth o ran ymatebwyr â chyfeiriadedd rhywiol gwahanol.<br><br>Aethpwyd â phosteri i'r Queer Emporium i ymgysylltu â phobl â chyfeiriadedd rhywiol gwahanol.<br><br>Hyrwyddwyd ymgysylltu trwy ein Rhwydwaith Staff LHDTC+. |

| **Sut bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:-** | **Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl** | **Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru** | **Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Y Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol.**<br>Cyfeiriwch at ble mae'r mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn y ddogfen, fel sy'n briodol |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddathlu amrywiaeth a chreu amgylchedd lle mae pawb, waeth beth fo'u cyfeiriadedd rhywiol, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cydnabod.<br><br>**Amcan 2:**<br>Dylai sianelau cyfathrebu a strategaethau ymgysylltu hwyluso deialog agored a chynhwysol sy'n cydnabod ac yn parchu unigolion â chyfeiriadedd rhywiol amrywiol. Dylid cynllunio mecanweithiau adborth i fod yn sensitif i brofiadau a phryderon unigolion â chyfeiriadedd rhywiol gwahanol, gan greu amgylchedd lle mae llais pawb yn cael ei glywed a'i barchu.<br><br>**Amcan 3:**<br>Dylai gwella hygyrchedd gwasanaethau iechyd ystyried anghenion penodol unigolion â chyfeiriadedd rhywiol gwahanol. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau gofal iechyd sy'n gynhwysol, yn anwahaniaethol ac yn parchu | | |

| Sut bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:- | Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl | Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru | Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Y Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol.<br>Cyfeiriwch at ble mae'r mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn y ddogfen, fel sy'n briodol |
|---|---|---|---|
| | strwythurau cydberthnasau amrywiol, gan gynnwys rhai unigolion heterorywiol, lesbiaidd, hoyw a deurywiol.<br><br>**Amcan 4:**<br>Dylai arferion casglu data, fel rhan o'r amcan data, gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol. Mae monitro cydraddoldeb yn sicrhau bod gan y bwrdd iechyd fewnwelediad i wahaniaethau neu amrywiadau posibl mewn canlyniadau iechyd a phrofiadau staff sy'n ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol gwahanol. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
